OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1514

# Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000(**1**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**);

mae "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 2(2);

ystyr "plentyn mabwysiadol" ("*adoptive child*") yw plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth neu blentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth;

ystyr "Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru)" ("*the Adoption Agencies (Wales) Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**);

ystyr "rhiant mabwysiadol" ("*adoptive parent*") yw person:

(a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 34(1) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) y byddai'n rhiant mabwysiadol addas i blentyn penodol;

(b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli plentyn gydag ef i'w fabwysiadu;

(c) sydd wedi hysbysu, o dan adran 44 o Ddeddf 2002, o'i fwriad i wneud cais am orchymyn mabwysiadu am blentyn;

(ch) sydd wedi mabwysiadu plentyn; neu

(d) sydd wedi mabwysiadu plentyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ôl hynny;

ond nid yw'n cynnwys person sy'n llys-riant neu'n rhiant naturiol i'r plentyn, neu a oedd yn llys-riant y plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn.

(4) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "asiantaeth" ("*agency*") yw asiantaeth cymorth mabwysiadu;

ystyr "awdurdod cofrestru" ("*registration authority*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "corff" ("*organisation*") yw corff corfforaethol;

(**1**) 2000 p.14.
(**2**) 2002 p.38.
(**3**) O.S. 2005/1313 (Cy.95).

ystyr "darparydd cofrestredig" ("*registered provider*"), o ran asiantaeth, yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 fel y person sy'n rhedeg yr asiantaeth;

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad ysgrifenedig a luniwyd yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc o fewn ystyr "bank holiday" yn Neddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**4**);

ystyr "gwrthrych" ("*subject*"), o ran darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan reoliadau 2(2)(d) neu (dd) yw person y mae'r person sy'n gofyn am y gwasanaeth yn ceisio cysylltu ag ef neu'n ceisio gwybodaeth amdano;

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*"), o ran asiantaeth, yw unrhyw berson sy'n ddarparydd cofrestredig neu'n rheolwr cofrestredig yr asiantaeth honno;

ystyr "person perthynol" ("*related person*") yw—

(a) perthynas o fewn ystyr "*relative*" yn adran 144(1) o Ddeddf 2002; neu

(b) unrhyw berson y mae gan y plentyn mabwysiadol berthynas ag ef a honno'n berthynas sydd ym marn yr awdurdod lleol yn fanteisiol i les y plentyn o ystyried y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iii) o adran 1(4)(f) o Ddeddf 2002;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed;

ystyr "plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth" ("*agency adoptive child*") yw plentyn—

(a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu amdano yn unol â rheoliad 19(1) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) ei fod yn blentyn y dylid ei leoli i'w fabwysiadu;

(b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi'i leoli i'w fabwysiadu; neu

(c) sydd wedi'i fabwysiadu ar ôl cael ei leoli i'w fabwysiadu gan asiantaeth fabwysiadu;

ystyr "plentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth" ("*non-agency adoptive child*") yw plentyn —

(a) y mae person —

   (i) wedi hysbysu am y plentyn hwnnw o'i fwriad o dan adran 44 o Ddeddf 2002 i wneud cais am orchymyn mabwysiadu; a

   (ii) yn berson nad yw'n rhiant naturiol nac yn llys-riant i'r plentyn; neu

(b) sydd wedi'i fabwysiadu gan berson —

   (i) nad yw'n rhiant naturiol y plentyn; a

   (ii) nad oedd yn llys-riant y plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn

   ond nad yw'n cynnwys plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth;

ystyr "rheolwr cofrestredig" ("*registered manager*"), o ran asiantaeth, yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 fel rheolwr yr asiantaeth; a

rhaid dehongli "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*") yn unol â rheoliad 5(2).

(5) Yn y Rheoliadau hyn —

(a) mae unrhyw gyfeiriad at blentyn mabwysiadol person yn gyfeiriad at blentyn sy'n blentyn mabwysiadol o ran y person hwnnw;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at riant mabwysiadol plentyn yn gyfeiriad at berson sy'n rhiant mabwysiadol o ran y plentyn hwnnw;

(**4**) 1971p.80.

(c) mae cyfeiriadau (heblaw cyfeiriadau yn yr is-baragraff hwn) at blentyn sy'n cael ei leoli i'w fabwysiadu —

(i) yn gyfeiriadau at y plentyn sy'n cael ei leoli i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd gan asiantaeth fabwysiadu;

(ii) yn cynnwys, pan fo'r plentyn wedi'i leoli gyda pherson gan asiantaeth fabwysiadu, gadael y plentyn gyda'r person hwnnw fel darpar fabwysiadydd;

(ch) mae unrhyw gyfeiriad at gyflogi person yn cynnwys cyflogi person boed am dâl neu beidio, a ph'un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau, a chaniatáu i berson weithio fel gwirfoddolwr, a rhaid dehongli cyfeiriadau at gyflogai neu at berson sy'n cael ei gyflogi yn unol â hynny.

## Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

**2.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw gais am gofrestriad o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 gael ei wneud o ran asiantaeth cymorth mabwysiadu sy'n gorff anghorfforedig.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn ac adran 2(6) o Ddeddf 2002 (diffiniad o "adoption support services"), mae'r gwasanaethau canlynol wedi'u rhagnodi —

(a) cymorth i rieni mabwysiadol, plant mabwysiadol, a phersonau perthynol o ran trefniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant naturiol, neu berson perthynol y plentyn mabwysiadol;

(b) gwasanaethau y gellir eu darparu mewn cysylltiad ag anghenion therapiwtig y plentyn o ran y mabwysiadu hwnnw;

(c) cymorth er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant mabwysiadol yn parhau, gan gynnwys hyfforddiant i rieni mabwysiadol er mwyn diwallu unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn ac sy'n codi o'r mabwysiad hwnnw;

(ch) cymorth pan fo tarfu ar drefniant mabwysiadu neu leoliad mabwysiadu wedi digwydd neu mewn perygl o ddigwydd, gan gynnwys:

(i) cyfryngu; a

(ii) trefnu a rhedeg cyfarfodydd i drafod achosion tarfu ar fabwysiadu neu leoli;

(d) cymorth i bersonau a fabwysiadwyd ac sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth ynglyn â'u mabwysiad neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau;

(dd) cymorth i berthnasau personau a fabwysiadwyd ac sydd wedi cyrraedd 18 oed, i gael gwybodaeth ynglyn â'r mabwysiad hwnnw neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'r person a fabwysiadwyd.

(3) At ddibenion Rheoliadau 2(2)(d) neu (dd) ystyr 'perthynas' yw unrhyw berson a fyddai, oni bai am ei fabwysiad, yn perthyn drwy waed, gan gynnwys hanner gwaed neu briodas, i'r person a fabwysiadwyd.

## Y datganiad o ddiben a'r arweiniad plant

**3.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio mewn cysylltiad â'r asiantaeth ddatganiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y datganiad o ddiben") a rhaid i hwnnw gynnwys datganiad ynglyn â'r materion a restrir yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu copi o'r datganiad o ddiben i'r awdurdod cofrestru.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig drefnu bod copi o'r datganiad o ddiben ar gael ar gais i'w arolygu gan —

(a) unrhyw berson sy'n gweithio at ddibenion yr asiantaeth;

(b) unrhyw berson sy'n cael gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr asiantaeth neu sy'n gweithredu ar ran plentyn sy'n cael gwasanaethau o'r fath gan yr asiantaeth;

(c) unrhyw berson sy'n holi ar ei ran ei hun neu ar ran plentyn am gael gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr asiantaeth;

(ch) unrhyw awdurdod lleol.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig, o ran asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu i blant, gynhyrchu arweiniad ysgrifenedig i'r asiantaeth (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr arweiniad plant") a rhaid iddo gynnwys —

(a) crynodeb o ddatganiad o ddiben yr asiantaeth;

(b) crynodeb o'r weithdrefn gwynion a sefydlwyd o dan reoliad 19(1); ac

(c) cyfeiriad a Rhif ffôn yr awdurdod cofrestru.

(5) Rhaid i'r arweiniad plant gael ei gynhyrchu ar ffurf sy'n briodol i oedran, dealltwriaeth ac anghenion cyfathrebu'r plant y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu iddynt.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu copi o'r arweiniad plant i'r awdurdod cofrestru, i unrhyw oedolyn sy'n gweithredu ar ran plentyn y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu iddo ac (yn dibynnu ar ei oedran a'i ddealltwriaeth) i bob plentyn o'r fath.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr asiantaeth yn cael ei rheoli bob amser mewn modd sy'n gyson â'i datganiad o ddiben.

(8) Ni fydd dim ym mharagraff (7) yn ei gwneud yn ofynnol nac yn awdurdodi'r person cofrestredig i fynd yn groes i, neu i beidio â chydymffurfio ag—

(a) unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn; neu

(b) unrhyw amodau sydd mewn grym am y tro o ran cofrestru'r darparydd cofrestredig o dan Ran 2 o Ddeddf 2000.

### Adolygu'r datganiad o ddiben a'r arweiniad plant

**4.** Rhaid i'r person cofrestredig —

(a) cadw golwg ar y datganiad o ddiben a'r arweiniad plant, a phan fo'n briodol, eu hadolygu;

(b) hysbysu'r awdurdod cofrestru o unrhyw adolygiad o'r fath o fewn 28 o ddiwrnodau; ac

(c) os adolygir yr arweiniad plant, darparu copi i bob oedolyn sy'n gweithredu ar ran plentyn y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu iddo ac (yn dibynnu ar ei oedran a'i ddealltwriaeth) i bob plentyn o'r fath.